



Papur Gwybodaeth Manwl

Y Ddeddf Lobio

Cyflwyniad

Mae'r papur gwybodaeth yma'n rhoi trosolwg o sut y bydd y Ddeddf Lobio yn gweithio er mwyn helpu cymdeithasau tai i ddeall sut bydd y gyfraith yn effeithio arnynt yn y cyfnod cyn etholiadau. Nod y papur gwybodaeth yw eich galluogi i benderfynu os bydd angen i'ch sefydliad gofrestru gyda'r Comisiwn Etholiadol ai peidio a sut i osgoi gwneud hynny lle'n bosibl.

Nid yw'r papur gwybodaeth yma'n cynnig cyngor cyfreithiol a dim ond fel canllaw y dylid ei ystyried. Os teimlwch yn ansicr am waith eich sefydliad yng nghyswllt y Ddeddf Lobio, gall fod yn werth ystyried cyflogi gwasanaeth cyfreithiwr a all roi cyngor cyfreithiol.

Mae'r papur gwybodaeth yma'n cyfeirio at Gymru gyda chyfeiriadau penodol at etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2016 ac at refferenda, sy'n dilyn rheolau gwahanol.

Cefndir

Mae'r **Ddeddf Tryloywder Lobio, Ymgyrchu Di-blaid a Gweinyddiaeth Undebau Llafur 2014** - a gaiff hefyd ei galw'n **Ddeddf Lobio**, y **Bil Lobio** neu'r **Bil Gagio** - yn newid *Deddf Pleidiau Gwleidyddol Etholiadau a Refferenda 2000*. Mae'r ddwy ddeddf yn rheoleiddio, ymysg pethau eraill, wariant ar weithgareddau ymgyrchu neilltuol yn y cyfnod cyn etholiad.

Gweithiodd Cartrefi Cymunedol Cymru (CHC) gyda chynghrair eang o sefydliadau yng Nghymru i ymgyrchu yn erbyn cyflwyno'r Ddeddf. Er y bu sefydliadau ar draws Prydain yn aflwyddiannus yn eu gwrthwynebiad i'r Ddeddf, sicrhawyd rhai llwyddiannau:

- Codi'r trothwy ar gyfer sefydliadau di-blaid i gofrestru gyda'r Comisiwn Etholiadol o'r £2,000 a gynigiwyd yn wreiddiol i £10,000 ar gyfer Cymru.
- Eithrio costau cyfieithu i'r Gymraeg.



- Newidiwyd y rheolau i sefydliadau 'yn gweithio ar gynllun ar y cyd' (cynghreiriau) i eithrio sefydliadau gyda gwariant bach lle mae o leiaf un aelod o'r gynghair yn cofrestru fel ymgyrchydd arweiniol.
- Adolygiad a ddisgwyllir gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig o'r ddeddfwriaeth yn dilyn Etholiad Cyffredinol 2015.

Mae CHC yn dal i fod â phryderon am rai agweddau o'r Ddeddf a bydd yn parhau i gefnogi galwadau am ei diddymu. Mae ymateb dechreuol CHC pan basiwyd y Ddeddf ar gael yma:

<http://chcymru.org.uk/en/view-news/reaction-to-lobbying-bill>

Ymgyrchoedd Di-blaid

Ymgyrchoedd di-blaid yw unigolion neu sefydliadau sy'n ymgyrchu yn y cyfnod cyn etholiadau ond nad ydynt yn sefyll fel pleidiau gwleidyddol neu ymgeiswyr.

Er enghraifft, gall ymgyrchydd di-blaid fod yn sefydliad ymgyrchu, elusen, grŵp ffydd, cwmni neu unigolyn a all fod eisiau ymgyrchu ar faterion neilltuol, neu dros neu yn erbyn pleidiau neu ymgeiswyr neilltuol.

Mewn cyfraith etholiadol, gelwir ymgyrchydd di-blaid yn 'drydydd parti'.

Rheoleiddio

Y cam cyntaf wrth benderfynu os oes angen i'ch sefydliad gofrestru gyda'r Comisiwn Etholiadol yw dynodi os byddwch yn gwneud unrhyw weithgaredd ymgyrch rheoledig.

i. Pa weithgaredd ymgyrchu a gaiff ei reoleiddio?

Dim ond os yw'n cyflawni'r **ddau** brawf dilynol y caiff gweithgaredd ymgyrchu ei reoleiddio. Ni chaiff gweithgaredd ei reoleiddio os mai dim ond un o'r profion y mae'r gweithgaredd yn ei gyflawni.

- **Y prawf diben:** Mae hyn yn cyfeirio at unrhyw weithgaredd y medrid yn rhesymol ei ystyried fel bod â'r bwriad i ddylanwadu ar etholwyr i bleidleisio mewn ffordd neilltuol. Mae hyn yn cynnwys galw ar bleidleiswyr i bleidleisio dros neu yn erbyn plaid wleidyddol neu ymgeisydd neilltuol, ac (o bosibl) alwadau sy'n hybu/gwrthwynebu safbwyntiau polisi sy'n gysylltiedig yn agos iawn gydag un blaid wleidyddol (e.e. 'y dreth ystafelloedd gwely').



- **Y prawf cyhoeddus.** Mae hyn yn weithredol ar gyfer unrhyw weithgaredd y gall y cyhoedd ei weld neu ei glywed neu sy'n ymwneud â'r cyhoedd yn gyffredinol. Mae eich tenantiaid yn debygol o gyfrif fel 'y cyhoedd' os nad ydynt i gyd yn aelodau neu'n gefnogwyr ymrwymedig.

Os gwariwch fwy na £10,000 ar weithgaredd sy'n cyflawni'r ddau brawf yma, yna bydd yn rhaid i chi gofrestru gyda'r Comisiwn Etholiadau.

Mae gwariant y mae'n rhaid cyfrif amdano yn cynnwys cynhyrchu deunyddiau/digwyddiadau a chost yr amser a dreuliodd unrhyw aelod(au) o staff yn cynhyrchu'r deunyddiau/datganiadau hyn. Rhaid hefyd gyfrif am gost cludiant lle trefnwyd hynny gyda golwg ar sicrhau cyhoeddusrwydd. Rhaid hefyd reoleiddio defnydd cyfryngau cymdeithasol os yw'n cyflawni'r prawf diben. Mae cyfryngau cymdeithasol, drwy ddiffiniad, yn awtomatig yn cyflawni'r prawf cyhoeddus.

Caiff costau cyfieithu i'r Gymraeg eu heithrio o'r rheoliad gwariant; fodd bynnag, rhaid cyfrif am unrhyw ddeunyddiau/digwyddiadau a gaiff eu dosbarthu/cynnal yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg, a dim ond cost cyfieithu a gaiff ei eithrio, nid unrhyw ddeunyddiau/digwyddiadau sy'n defnyddio'r Gymraeg. Mae hefyd yn bwysig nodi mai dim ond cyfieithu i'r Gymraeg a eithrir (cyfieithu i ac o'r Gymraeg) - rheoleiddir costau cyfieithu i unrhyw iaith arall.

Tabl 1: Terfynau gwariant ymgyrch

	Lloegr	Cymru	Yr Alban	Gogledd Iwerddon
Terfyn gwariant cyn cofrestru	£20,000	£10,000		
Terfyn gwariant cenedlaethol ar ôl cofrestru	£319,800	£44,00	£55,400	£30,800
Terfyn gwariant etholaeth ar ôl cofrestru	£9,750			

ii. Pwy sy'n rheoleiddio ymgyrchoedd?

Mae'r Comisiwn Etholiadol yn dynodi dau fath gwahanol o ymgyrchoedd di-blaid:

- **Ymgyrchoedd di-blaid:** ymgyrchoedd di-blaid dros neu yn erbyn un neu fwy o ymgeiswyr mewn etholaeth neilltuol, ward neu ardal etholiadol eraill. Ni chaiff ymgyrchoedd lleol eu



rheoleiddio gan y Comisiwn Etholiadau ac i'r heddlu y dylid cwyno os caiff rheolau etholiadol eu torri.

- **Ymgyrchoedd cyffredinol:** ymgyrchoedd di-blaid dros neu yn erbyn plaid wleidyddol, categorïau neilltuol o ymgeiswyr, yn cynnwys ymgyrchoedd ar bolisiau neu faterion sydd wedi'u cysylltu'n agos gyda phlaid neilltuol neu gategori o ymgeiswyr. Caiff ymgyrchoedd cyffredinol eu rheoleiddio gan y Comisiwn Etholiadol.

iii. Pryd y caiff ymgyrchoedd eu rheoleiddio?

Bydd y cyfnod rheoleiddio ar gyfer etholiadau 2016 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn eu lle am 4 mis. Bydd y cyfnod rheoleiddio yn dechrau ddydd Mawrth 5 Ionawr 2016 a daw i ben ar ddiwrnod yr etholiad, dydd Iau 5 Mai 2016.

Y cyfnod rheoleiddio ar gyfer etholiadau cyffredinol y Deyrnas Unedig yw 365 diwrnod; fodd bynnag, gostyngwyd hyn i 7.5 mis ar gyfer etholiadau 2015.

Yn y digwyddiad tebygol y cynhelir o leiaf ddau refferendwm cyn Etholiad Cyffredinol nesaf y Deyrnas unedig (sef refferendwm ar aelodaeth y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd a'r refferendwm posibl ar bwerau treth incwm i Gymru), y cyfnod rheoleiddio yw 112 diwrnod.

Tabl 2: Cyfnodau rheoleiddio ymgyrch

365 diwrnod (1 flwyddyn)	120 diwrnod (4 mis)	112 diwrnod (16 wythnos)
Etholiadau Cyffredinol y Deyrnas Unedig	Etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru Etholiadau Cynulliad Gogledd Iwerddon Etholiadau Senedd yr Alban	Refferenda

Ymgyrchoedd ar y cyd a chynghreiriau

Gall effeithio ar eich terfyn gwariant a ph'un ai oes angen i chi gofrestru fel ymgyrchydd di-blaid os gweithiwch gydag ymgyrchwyr eraill.



Gallwch benderfynu cydweithio ar ymgyrchwyr di-blaid eraill ar ymgyrchu rheoledig fel rhan o gynllun neu drefniant cydlynol y bwriedir iddo gyflawni diben cyffredin. Gelwir hyn yn 'ymgyrch ar y cyd'.

Gall sefydliadau gydweithio mewn ymgyrch ar y cyd yn y ffyrdd dilynol:

- Gallwch fod yn ymgyrchydd di-blaid yn gweithio gydag ymgyrchwyr eraill
- Gallwch gymryd rhan mewn 'ymgyrch arweiniol' un ai fel 'ymgyrchydd arweiniol' neu 'fân ymgyrchydd'

Os yw ymgyrchwyr di-blaid yn cydweithio fel rhan o gyd-ymgyrch, bydd eu gwariant ymgyrch cyfunol rheoledig yn cyfrif tuag at derfyn gwariant pob ymgyrchydd di-blaid sy'n gysylltiedig.

Os yw eu gwariant ymgyrch cyfun rheoledig ar y gyd-ymgyrch yn fwy na £10,000 (yng Nghymru), mae'n rhaid i'r holl ymgyrchwyr di-blaid sy'n cymryd rhan yn y gyd-ymgyrch gofrestru, hyd yn oed os yw eu gwariant ymgyrch unigol rheoledig yn is na'r terfyn cofrestru.

Os ydych yn 'fân ymgyrchydd', nid oes angen i chi gofrestru ac adrodd manylion eich gwariant cyhyd â'ch bod yn gwario llai na £10,000 ar wariant ymgyrchu rheoledig. Bydd eich 'ymgyrchydd arweiniol' yn gyfrifol am roi adroddiad i'r Comisiwn Etholiadau ar eich gwariant ymgyrchu rheoledig fel rhan o'r gyd-ymgyrch.

Cofrestru gyda'r Comisiwn Etholiadol

Os canfyddwch y byddwch yn cynnal gweithgaredd rheoledig ac y byddwch yn gwario dros £10,000 ar y gweithgaredd yma (yn cynnwys costau staff), yna bydd angen i chi gofrestru gyda'r Comisiwn Etholiadol.

I wneud hyn, gallwch un ai wneud cais ar-lein drwy ymweld â PEF ar-lein

(<https://pefonline.electoralcommission.org.uk/Default.aspx>) neu lenwi Ffurflen TP1

(http://www.electoralcommission.org.uk/_data/assets/pdf_file/0010/169453/form-tp1-ukpge.pdf) a'i

bostio neu e-bostio at y Comisiwn Etholiadol. (<http://www.electoralcommission.org.uk/contact-us/our-offices>). Mae manylion pellach ar gofrestru ar dudalen 10 dogfen ganllaw 'Cofrestru fel ymgyrchydd di-blaid' y Comisiwn Etholiadol:

http://www.electoralcommission.org.uk/_data/assets/pdf_file/0011/165962/sp-registering-npc.pdf



Unwaith y byddwch wedi cofrestru, bydd yn rhaid i chi gydymffurfio â chapiau gwariant yn ystod y cyfnod rheoledig (rhwng 5 Ionawr 2016 a 5 Mai 2016).

Penderfynu peidio cofrestru

Pe penderfynych nad ydych eisiau cofrestru gyda'r Comisiwn Etholiadol, dyma rai pethau y dylech eu hystyried:

- Datblygu proses i wirio nad oes dim a anfonwch at y cyhoedd (yn cynnwys tenantiaid) yn cyflawni'r prawf diben. Bydd hyn yn cynnwys deunyddiau ysgrifenedig megis papurau gwybodaeth neu gylchlythyrau, hysbysiadau i'r wasg a roddwch ar eich gwefan, unrhyw beth ar sianeli cyfryngau cymdeithasol a digwyddiadau y mae gan y cyhoedd fynediad iddynt. Bydd angen i chi fod yn arbennig o ofalus wrth gyfeirio at faterion gwleidyddol bleidiol fel y 'dreth ystafelloedd gwely' (er nad yw hyn wedi'i ddatganoli) a'r Hawl i Brynu.
- Gwirio ar weithgaredd arfaethedig unrhyw gyd-ymgyrchoedd neu gynghreiriau yr ydych yn ymwneud â nhw - unrhyw beth lle'r ydych yn gweithio gydag eraill ar gynllun neu drefniant wedi'i gydlyn. Os yw'r cynllun yn cynnwys gweithgaredd rheoledig rhwng 5 Ionawr 2016 a 5 Mai 2016, dylech ofyn os bydd y gwariant ar y gweithgaredd yma'n golygu fod yn rhaid i chi gofrestru gyda'r Comisiwn Etholiadol. Os, dan y cynllun a gytunwyd, mai ychydig iawn o arian/amser staff yr ydych yn ei gyfrannu (dan £10,000, neu £9,750 yn unrhyw etholaeth, pan gaiff ei gyfrif gyda'ch gwariant ymgyrchu heb fod ar y cyd), efallai y byddech yn cael eich dosbarthu fel 'mân ymgyrchydd' a fyddai'n golygu mai dim ond tuag at wariant yr 'ymgyrchydd arweiniol' y byddai'r gwariant ar weithgaredd rheoledig yn cyfrif. Yn yr achos yma, mae'n rhaid i'r ymgyrchydd arweiniol ei hun fod wedi cofrestru.
- Bod yn arbennig o ofalus wrth ymateb yn gyhoeddus i gyhoeddiadau unrhyw blaid wleidyddol neu ymrwymadau i weithredu polisiâu os cânt eu hethol. Os buoch yn ymgyrchu ar fater neilltuol a bod plaid wleidyddol yn ymrwymo iddo, mae'n rhaid i chi fod yn ofalus i beidio dangos unrhyw dueddiad tuag at y blaid honno pan fyddwch yn ymateb yn gyhoeddus i'w cyhoeddiad. Yn yr un modd, dylid bod yn ofalus wrth ofyn i wleidyddion 'gymeradwyo' eich ymgyrch i sicrhau nad yw'r gymeradwyaeth yn cyfeirio at unrhyw faterion lle mae rhaniadau rhwng pleidiau neu ymgeiswyr. Rhaid i chi hefyd beidio newid neu gynyddu eich gweithgaredd ymgyrchu yn seiliedig ar y cyhoeddiad hwnnw - yn y cyswllt hwnnw, byddai'n ddefnyddiol i chi nodi eich cynlluniau ymgyrchu cyn dechrau'r cyfnod rheoledig gan y gall fod yn rhaid i chi brofi nad ydych wedi newid eich ymgyrchu ar fater neilltuol.



- Mae'n werth cofio fod ceisio dylanwadu ar wleidyddion neu ddarpar ymgeiswyr y Cynulliad y tu allan i gwmpas y Ddeddf Lobio. Gall eich sefydliad barhau i gwrdd gyda a cheisio dylanwadu ar wleidyddion ac ymgeiswyr lleol heb orfod poeni am y Ddeddf.

Casgliadau

I gloi, cyn cofrestru gyda'r Comisiwn Etholiadol dylech:

- Wirio os byddwch yn cynnal unrhyw weithgaredd rheoledig. Mae cymdeithasau tai yn sefydliadau gwleidyddol ddi-dduedd (felly hefyd CHC). Fodd bynnag, mae angen i chi gadw golwg ar eich cyhoeddiadau, yn neilltuol os yw pleidiau neu ymgeiswyr yn cymryd safbwyntiau gwahanol ar faterion tai.
- Gwirio fod eich bwrdd yn cytuno gyda'ch penderfyniad, ac y caiff y penderfyniad ei gofnodi.
- Datblygu proses i sicrhau nad ydych yn anfwriadol yn gwneud unrhyw weithgaredd rheoledig a allai eich rhoi mewn risg o orfod cofrestru.
- Gwirio os bydd unrhyw ymgyrchoedd yr ydych yn ymwneud â nhw yn gwneud unrhyw weithgaredd rheoledig. Os ydynt, dylech ymchwilio sut y gallai hyn effeithio ar eich sefydliad.

Os canfyddwch fod angen i chi gofrestru, bydd angen i chi roi prosesau ar waith i sicrhau eich bod yn casglu'r holl wybodaeth angenrheidiol. Mae'r Comisiwn Etholiadol wedi ymrwymo i ateb cwestiynau sefydliadau am y Ddeddf cyn gynted ag sy'n bosibl. Gallwch gysylltu â nhw ar pef@electoralcommission.org.uk. Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y papur gwybodaeth manwl yma, cysylltwch os gwelwch yn dda â Liam Townsend, Cymhorthydd Ymchwil CHC ar liam-townsend@chcymru.org.uk neu 029 2067 4822.

Gwybodaeth bellach

- Deddf Tryloywder Lobio, Ymgyrchu Di-blaid a Gweinyddiaeth Undebau Llafur 2014 (<http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2014/4/contents/enacted/data.htm>)
- Canllawiau'r Comisiwn Etholiadol ar gyfer ymgyrchwyr di-blaid (<http://www.electoralcommission.org.uk/i-am-a/party-or-campaigner/non-party-campaigners>)